

Ysgol Brynhyfryd
Ffordd yr Wyddgrug
Rhuthun
Sir Ddinbych
LL15 1EG
Ffôn 01824 703933
Ffacs 01824 705345
e-bost: ysgol.brynhyfryd@sirddinbych.gov.uk



Ysgol Brynhyfryd
Mold Road
Ruthin
Denbighshire
LL15 1EG
Phone 01824 703933
Fax 01824 705345
e-mail: ysgol.brynhyfryd@denbighshire.gov.uk

Geraint Wyn Parry
Pennaeth

Geraint Wyn Parry
Headteacher

13 Ebrill 2021

Annwyl Riant/Warchodwr

**Re Corff Llywodraethu Ysgol Brynhyfryd
Etholiad Rhiant-lywodraethwr**

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi bod gennym 5 swydd wag ar gyfer cynrychiolydd rhiant-lywodraethwr ar Gorff Llywodraethu'r ysgol.

Gwahoddir enwebiadau gan holl rieni, neu'r rhai â chyfrifoldeb rhiant, disgyblion cofrestredig yn yr ysgol. Mae rhagor o wybodaeth am y diffiniad o "riant a chyfrifoldeb rhieni ar gael ar <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-05/rhieni-a-cyfrifoldeb-rhiant-canllawiau-ar-gyfer-ysgolion-cy.pdf>.

Os hoffech enwebu eich hun, llenwch y ffurflen enwebu amgaeedig a'i dychwelyd i mi erbyn **Dydd Mawrth, 27 Ebrill 2021** fan bellaf. Ni fydd enwebiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried. Os dymunwch, gallwch gyflwyno datganiad personol byr, o ddim mwy na 150 o eiriau, ynghyd â'ch ffurflen enwebu.

Tymor swydd rhiant-lywodraethwr yw pedair blynedd o ddyddiad y penodiad. Gall rhiant-lywodraethwr wasanaethu eu cyfnod yn y swydd os yw eu plentyn yn gadael yr ysgol yn ystod y cyfnod eu tymor yn y swydd.

Disgwylir i lywodraethwyr fynychu Cyfarfod Llawn y Llywodraethwyr ac un Is Bwyllgor unwaith y tymor. Fel rheol, cynhelir cyfarfodydd ar nos Iau am 5.00 yr hwyr.

Mae mwy o fanylion ar rôl y llywodraethwr ar gael wrth fynd ar <https://www.governors.cymru/dod-llywodraethwr/>

Yn union wedi i'r dyddiad olaf ar gyfer derbyn enwebiadau fynd heibio, byddaf yn rhoi gwybod i chi a fydd etholiad yn cael ei gynnal ai peidio. Os bydd angen etholiad, byddaf yn rhannu papurau pleidleisio cyn gynted â phosib ar ôl **Dydd Mawrth, 27 Ebrill 2021**.

Yn gywir

Heather Hughes

Heather Hughes
Clerc y Corff Llywodraethu

Ysgol Brynhyfryd
Ffordd yr Wyddgrug
Rhuthun
Sir Ddinbych
LL15 1EG
Ffôn 01824 703933
Ffacs 01824 705345
e-bost: ysgol.brynhyfryd@sirddinbych.gov.uk

Geraint Wyn Parry
Pennaeth



Ysgol Brynhyfryd
Mold Road
Ruthin
Denbighshire
LL15 1EG
Phone 01824 703933
Fax 01824 705345
e-mail: ysgol.brynhyfryd@denbighshire.gov.uk

Geraint Wyn Parry
Headteacher

Etholiad Rhiant-lywodraethwr

FFURFLEN ENWEBU

Ethol Rhiant-lywodraethwr/wyr

Hoffwn enwebu fy hun ar gyfer swydd Rhiant-lywodraethwr. Cadarnhaf fy mod yn gymwys i sefyll yn unol â'r wybodaeth a ddarparwyd.

1. Enw:

2. Cyfeiriad:

3. E-bost:

4. Rhif Ffôn:

**I'w dychwelyd at Heather Hughes, Clerc y Llywodraethwyr, Ysgol Brynhyfryd erbyn
Dydd Mawrth, 27 Ebrill 2021.**